

TELERAU MASNACH S4C – YR AIL ARGRAFFIAD
AR GYFER RHAGLENNI A GOMISIYNIR DAN GOD YMARFER S4C

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Datblygu Prosiectau
3. Y Broses Gomisiynu
4. Rheolaeth Olygyddol
5. Cyfleu
6. Gwasanaethau Mynediad i Deledu
7. Hyrwyddo a Marchnata
8. Canllawiau Cydymffurfiaeth
9. Materion Ariannol
 - 9.1 Arweiniad ar Elfennau o'r Gyllideb
 - 9.1.1 Deunydd trydydd parti a defnyddio deunydd archif o raglenni a gomisiynwyd gan S4C
 - 9.1.2 Ffioedd Cyfreithiol
 - 9.1.3 Yswiriant
 - 9.1.6 Ffi Gynhyrchu
 - 9.1.9 Hyfforddiant
 - 9.1.14 Llif Arian
 - 9.2 Monitro a Rheoli Costau
 - 9.2.1 Cyfrifon Banc
 - 9.2.4 Datganiadau ac Adroddiadau Costau
 - 9.2.7 Adroddiad Cost Terfynol
 - 9.2.8 Archwiliadau Costau
 - 9.2.11 Gorwariant
 - 9.2.13 Tanwariant
10. Bargeinio Torfol
11. Cyfrifoldebau Statudol
 - 11.1 Cyfleoedd Cyfartal
 - 11.3 Cydraddoldeb Hiliol
 - 11.4 Rhyddid Gwybodaeth
 - 11.7 Plant
 - 11.9 Iechyd a Diogelwch
 - 11.13 Gwarchod Data
12. Hawlfraint a Chydnabyddiaeth
13. Hawliau
 - 13.1 Hawliau Craidd
 - 13.2 Hawliau Darlledu
 - 13.9 Hawliau Cyfryngau Newydd
 - 13.14 Ataliadau
 - 13.17 Cliriadau
 - 13.20 Yr hawl i Greu a Chynnal Gwefan sy'n atodol i Raglen ar gyfer Rhaglen S4C
 - 13.27 Opsiwn i Ymestyn Cyfnod y Drwydded

- 13.28 Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol
- 13.35 Hawliau Marsiandiaeth
- 13.37 Yr Hawl i Ddefnyddio Clipiau o'r Rhaglen mewn Rhaglenni Eraill ar gyfer S4C
- 13.38 Hawliau Hyrwyddo
- 13.39 Yr Hawl i Awdurdodi Defnydd Addysgol ac Archifol
- 13.40 Hawliau Recordio oddi ar yr Awyr
- 13.41 Hawliau Ymylol Eraill
- 13.42 Arddangosiadau Theatrig
- 14. Hawliau Ymelwa a Dosbarthu
- 15. Enillion Net ac Adrodd ar Ymelwa
- 16. Gwyliu Ffilm a Theledu
- 17. Cyd-gynhyrchiadau
- 18. Datrys Anghydfodau
- 19. Polisi Dethol ac Archifo TAC
- 20. Ceisiadau am Gopïau Preifat

Mynegai o'r Dogfennau Atodol (y cyfeirir atynt yn y Telerau Masnach hyn)

- 1. Archif
- 2. [Llythyr Banc](#)
- 3. [Polisi Amddiffyn Plant](#)
- 4. [Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Craidd](#)
- 5. [Cod Ymarfer](#)
- 6. [Y Broses Gomisiynu](#)
- 7. Polisi Cwynion
- 8. [Canllawiau Cydymffurfiaeth](#)
- 9. [Manylion Cyswllt](#)
- 10. [Gofynion Cyfleu](#)
- 11. Polisi Datblygu [i ddilyn yn fuan]
- 12. [Briff Golygyddol a Busnes](#)
- 13. Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- 14. [Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth](#)
- 15. [Polisi Iechyd a Diogelwch](#)
- 16. [Tariffau Arweiniol](#)
- 17. [Cynllun Yswiriant – Crynodeb](#)
- 18. Canllawiau Copïau Preifat []
- 19. [Strategaeth Rhaglenni](#)
- 20. [Canllawiau Isdeitlo](#)
- 21. Camau wrth Drafod y Ffi Drwydded []
- 22. [Trwydded safonol ar gyfer rhaglenni a gomisiynir dan y Cod Ymarfer](#)
- 23. Canllawiau Nawdd
- 24. [Polisi Dethol ac Archifo TAC](#)
- 25. [Gofynion Technegol](#)
- 26. Polisi Tendro [ar gael yn fuan]
- 27. [Holiadur ar gyfer y Cynllun Hyfforddi a Datblygu](#)

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Telerau Masnach hyn yn amlinellu ar ba delerau y mae S4C fel rheol yn comisiynu rhaglenni gan y sector annibynnol, gan ymhelaethu ar y prif egwyddorion a gynhwysir yng Nghod Ymarfer S4C. Dyma Ail Argraffiad y Telerau Masnach ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan TAC ac S4C yn ystod yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2005 – 2006. Mae llawer o'r naratif a'r cefndir esboniadol a ddarparwyd yn yr Argraffiad Cyntaf wedi cael ei ddileu gan fod y Telerau Masnach wedi bod yn weithredol am ddwy flynedd bellach. Fodd bynnag, cedwir yr Argraffiad Cyntaf er eich gwybodaeth [yn yr Archif](#).
- 1.2 I gynorthwyo cynhyrchwyr i benderfynu a ddylent gynnig rhaglen neu gyfres i S4C dan y Telerau Masnach hyn, mae S4C yn cyhoeddi ystod o [dariffau](#) ar gyfer pob *genre* o raglen a gomisiynir gan S4C.
- 1.3 Gall cynhyrhydd wastad ddewis cynnig rhaglen i S4C ar sail wahanol i'r hyn a awgrymir yn Nhelerau Masnach S4C. Mae'r canlynol wedi eu heithrio o God Ymarfer S4C:-
 - 1.3.1 y rhaglenni a gyflenwir gan y BBC a/neu Channel 4 i S4C yn unol â Deddf Darlledu 1990;
 - 1.3.2 unrhyw raglen neu gyfres sy'n rhoi sylw i ddigwyddiad neu sydd wedi'u seilio ar ddeunydd gwaelodol sy'n perthyn i drydydd parti a lle bo S4C wedi sicrhau neu drwyddedu'r hawliau angenrheidiol yn uniongyrchol;
 - 1.3.3 unrhyw raglen neu gyfres arall lle nad y cynhyrhydd sydd yn berchen ar neu'n rheoli'r hawliau angenrheidiol yn syniad neu fformat y rhaglen gan gynnwys ond heb gyfyngiad lle bo S4C yn cynnal proses dendro i gynhyrchu rhaglen neu gyfres yn unol â manyleb rhaglen a luniwyd ac a ddatblygwyd gan S4C;
 - 1.3.4 cyd-gynhyrchiadau lle y ceir lefel sylweddol o gydweithredu ac ymgynghori rhwng S4C ac unrhyw drydydd parti sy'n ariannu neu sy'n cymryd hawliau yn y cyd-gynhyrchiad;
 - 1.3.5 yr holl raglenni a gyflenwir gan y BBC a/neu ITV Cymru Wales i S4C (gan nad yw'r rhain yn 'gynhyrchwyr annibynnol' yn ôl Canllawiau OFCOM) a/neu unrhyw gyflenwr arall nad yw'n 'gynhyrhydd annibynnol' yn ôl Canllawiau OFCOM. Yn achos y BBC (o ran unrhyw raglenni a gyflenwir i S4C gan y BBC nad ydynt yn rhaglenni a gyflenwir i S4C yn unol ag Adran 58(1) Deddf Darlledu 1990) ac ITV Cymru Wales, bydd S4C yn ystyried i ba raddau y dylid mabwysiadu'r egwyddorion allweddol yng Nghod Ymarfer S4C wrth gomisiynu rhaglenni ganddynt;
 - 1.3.6 rhaglenni y mae'r cynhyrhydd yn dewis eu cynnig i S4C ar sail aseiniad llawn o'r hawlfraint.

- 1.4 Gall y partïon i unrhyw gomisiwn gytuno ar drefniant sy'n wahanol i'r telerau a gynhwysir yng Nghod Ymarfer a Thelerau Masnach S4C.
- 1.5 Adolygir y Telerau Masnach hyn yn rheolaidd. Cynhelir adolygiadau o leiaf unwaith y flwyddyn ac eithrio yn achos y tariffau yn Nhablau 1-4 (yn gynhwysiedig)
[<http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/e-tariffauarweiniol.doc>]
a adolygir ym mis Tachwedd 2006 a bob tair (3) blynedd wedi hynny. Gwneir unrhyw newidiadau yn dilyn trafodaethau rhwng S4C a Theledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ar ran ei aelodau.
- 1.6 Bernir bod yr Ail Argraffiad hwn o'r Telerau Masnach yn disodli'r Argraffiad Cyntaf yn ei gyfanrwydd. Os yn dilyn unrhyw adolygiad o'r Telerau Masnach y cytunir i ehangu'r Hawliau Craidd, bernir bod y Drwydded yn ymgorffori'r hawliau ehangach heb i S4C orfod amrywio'r Drwydded trwy gytundeb atodol neu fel arall. Bydd unrhyw ymarfer gan S4C o'r hawliau ehangach yn amodol ar fod S4C yn sicrhau ac yn talu am yr holl gliriadau sydd eu hangen ar gyfer cyfraniadau trydydd partïon a'r deunydd hawliau gwaelodol nad oedd yn ofynnol i'r Cynhyrhydd eu clirio o dan y drwydded yn wreiddiol.
- 1.7 Bydd gan eiriau sydd yn cychwyn â phriflythyren (heblaw am yr eithriadau amlwg a hunanesboniadol) yr un ystyron â'r rhai a roddwyd iddynt yn y Drwydded. Mae'r term "Trwydded" yn golygu'r drwydded y mae S4C yn sicrhau Hawliau S4C yn Rhaglen S4C drwyddi. Gellir cael copi o drwydded safonol S4C [fan hyn](#).

2. Datblygu Prosiectau

- 2.1 Ym mwyafrif yr achosion, bydd cynhyrchwyr yn datblygu prosiect heb gyllid gan S4C, cyn y gwneir unrhyw benderfyniad i'w gomisiynu. Nid yw anogaeth S4C iddynt i wneud hynny yn cyfateb i ymrwymiad cytundebol ar ran S4C.
- 2.2 Mae polisi datblygu S4C ar gael fan hyn [*hypergyswllt*]. Pan fydd S4C yn gwneud cyfraniad (boed yn ariannol neu'n greadigol) i'r gwaith o greu, addasu neu berffeithio syniad, bydd S4C yn disgwyl perchen ar yr hawliau yn y gwaith datblygu ar y cyd â'r cynhyrhydd, yn y fath gyfrannau ag sy'n deg o ystyried maint a natur cyfraniadau'r naill barti a'r llall. Yn y fath amgylchiadau, ni ddylai'r naill barti na'r llall ymelwa ar yr hawliau yn y gwaith datblygu heb ganiatâd y llall.
- 2.3 Bydd gan S4C yr opsiwn cyntaf i gomisiynu rhaglen wedi'i seilio ar y gwaith datblygu. Os na fydd S4C yn gwneud hynny neu os na fydd y partïon wedi dod i gytundeb ar delerau'r fath gomisiwn cyn pen cyfnod o 12 mis calendr o ddarparu'r gwaith datblygu (neu'r fath gyfnod arall ag a gytunir arno rhwng y partïon ac a nodir yn y cytundeb datblygu), bydd gan y cynhyrhydd yr hawl i fynnu bod S4C yn ad-aseinio'r holl hawliau yn y gwaith datblygu ac i gynnig y syniad i ddarllledwr arall ar yr amod bod:

- 2.3.1 y cynhyrchydd neu rywun ar ei ran yn ad-dalu swm i S4C sy'n gyfwerth â chyfraniad S4C i'r gwaith datblygu; a
 - 2.3.2 bod cyfraniad S4C i'r gwaith datblygu yn cael ei gydnabod trwy gydnabyddiaeth addas ar ddiwedd unrhyw raglen sydd wedi'i seilio ar y gwaith datblygu.
- 2.4 Os bydd y partiön yn dod i gytundeb o ran comisiynu rhaglen, bydd S4C ar gais y cynhyrchydd yn ad-aseinio ei holl hawliau yn y gwaith datblygu i'r cynhyrchydd er mwyn galluogi'r cynhyrchydd i gynnig y rhaglen i S4C yn unol â Chod Ymarfer S4C, ar yr amod bod cyfraniad S4C i'r gwaith datblygu yn cael ei gydnabod mewn rhyw fodd. Gellir cydnabod cyfraniad S4C i'r gwaith mewn unrhyw un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:
- 2.4.1 gostyngiad yn y Ffi Drwydded ar gyfer y rhaglen;
 - 2.4.2 ad-daliad uniongyrchol i S4C o swm sy'n cyfateb â chyfraniad S4C i'r gwaith datblygu;
 - 2.4.3 hawliau ychwanegol yn y rhaglen uwchlaw'r Hawliau Craidd;
 - 2.4.4 cyfran uwch o'r Enillion Net.
- 2.5 Fel rheol, ni ddisgwylir i waith datblygu gynnwys unrhyw waith ffilmio neu recordio (ac nid yw'r cytundeb datblygu safonol yn ei awdurdodi, ac felly nid yw'n addo talu am unrhyw waith ffilmio neu recordio o'r fath). Fodd bynnag, pan fydd angen ffilmio deunydd allweddol yn ddi-oed cyn y comisiynir y rhaglen arfaethedig, gall S4C gytuno comisiynu'r fath waith ffilmio/recordio ar sail cytundeb datblygu arbennig ar gyfer recordio deunydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff y deunydd hwn ei drin fel gwaith datblygu ac fel rhan o'r broses ddatblygu (yn hytrach na chomisiwn pendant ar gyfer y rhaglen arfaethedig).

3. Y Broses Gomisiynu

Mae amlinelliad o broses gomisiynu S4C ar gael [fan hyn](#)
Mae polisi tendro S4C fan hyn. Mae'r [Briff Golygyddol a Busnes](#)
yn elfen allweddol yn y broses ac fe'i gyplysir i'r Drwydded.

4. Rheolaeth Olygyddol

- 4.1 Mae disgwyl i bob rhaglen a gomisiynir gan S4C gyfrannu at amcanion strategaeth raglenni S4C. Yn ogystal, mae gan S4C gyfrifoldebau statudol i sicrhau y cynhelir safonau priodol o ran ansawdd a chynnwys ei raglenni a bod y raglenni yn addas ar gyfer eu slotiau darlledu arfaethedig a'r gynulleidfa darged. Felly, mae'n ofynnol bod S4C yn medru sicrhau bod pob rhaglen a gyflenwir i S4C yn cael ei chynhyrchu yn unol â gofynion comisiynu S4C.

- 4.2 Bydd y cynhyrchydd yn gyfrifol am gynhyrchu'r rhaglen o ddydd i ddydd ac am sicrhau bod y fath raglen yn cydymffurfio â'r Briff Golygyddol a Busnes y cytunwyd arno ar ei chyfer, a gyda gofynion eraill y Drwydded. Fel arfer, nid yw S4C yn bwriadu ymwneud â'r broses gynhyrchu yn barhaus, ond bydd y Comisiynydd a chynrychiolwyr eraill S4C yn dymuno gallu cysylltu â'r cynhyrchydd yn ystod y cyfnod cynhyrchu a chael adroddiadau rheolaidd ar sut mae'r gwaith o gynhyrchu'r rhaglen yn dod yn ei flaen. Bydd S4C a'r cynhyrchydd yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau o sylwedd ar y cyd, a bydd S4C yn rhoi ystyriaeth deg i farn y cynhyrchydd. Yn y pendraw, fodd bynnag, os oes unrhyw anghydfod, S4C fydd â'r gair olaf o ran y fersiwn o'r rhaglen a gyfleir i S4C.
- 4.3 [Bydd y Briff Golygyddol a Busnes](#) ynghlwm wrth y Drwydded. Bydd yn rhestru'r elfennau allweddol y bydd gan y Comisiynydd yr hawl i'w cymeradwyo ar gyfer pob rhaglen. Cytunir ar amserlen er mwyn cyfleu neu hysbysu'r elfennau allweddol i'r Comisiynydd a'u cymeradwyo gan y Comisiynydd. Pan fydd S4C yn llif-ariannu'r Ffi Drwydded, bydd y rhan-daliadau yn ddibynnol ar sicrhau cymeradwyaeth y Comisiynydd o bob un o'r elfennau hyn.
- 4.4 Wedi cytuno ar y Briff Golygyddol a Busnes, bydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig y Comisiynydd ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig i'r elfennau allweddol.
- 4.5 Bydd y cynhyrchydd yn gwneud unrhyw newidiadau y bydd y Comisiynydd yn gofyn iddo eu gwneud er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cydymffurfio â'r:
- 4.5.1 Briff Golygyddol a Busnes;
 - 4.5.2 telerau'r Drwydded;
 - 4.5.3 [y Canllawiau Cydymffurfiaeth](#), [y Gofynion Technegol](#) a'r [Gofynion Cyfleu](#).
- Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y Ffi Drwydded oni bai y bydd y Rheolwr Uned yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.
- 4.6 Bydd S4C yn ystyried talu am unrhyw gostau ychwanegol (y mae'n rhaid i'r Rheolwr Uned eu nodi a chytuno arnynt yn ysgrifenedig ymlaen llaw) sy'n codi o ofyn i'r cynhyrchydd wneud gwaith ychwanegol o ganlyniad i benderfyniadau golygyddol S4C, ar yr amod bod y cynhyrchydd wedi cadw at y Briff Golygyddol a Busnes. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y cynhyrchydd yn gyfrifol am hysbysu'r Rheolwr Uned o unrhyw waith ychwanegol sy'n codi o benderfyniadau golygyddol y Comisiynydd.
- 4.7 Bydd y Briff Golygyddol a Busnes yn nodi sawl egwyl sy'n debygol o fod yn angenrheidiol ar gyfer hysbysebion ond mae S4C yn cadw'r hawl i olygu'r deunydd wedi ei gyfleu er mwyn newid lleoliad a/neu nifer y toriadau hysbysebu.

- 4.8 Yn ystod y cyfnod ôl-gynhyrchu, gall y Comisiynydd ofyn am gael gweld rhestr o'r cydnabyddiaethau y bwriedir eu cynnwys yn y rhaglen ac os felly, dylid ceisio cymeradwyaeth y Comisiynydd cyn cynhyrchu'r cydnabyddiaethau. Rhaid i'r cydnabyddiaethau gydymffurfio â [Chanllawiau Cydymffurfiaeth S4C](#).

Os bydd rhaglen yn cynnwys cydnabyddiaethau annerbyniol, gall S4C wrthod y rhaglen neu hepgor a/neu newid y cydnabyddiaethau heb gysylltu â'r cynhyrchydd.

Cyfleu

- 5.1 Dylid cyfleu pob rhaglen yn unol â gofynion y [Gofynion Technegol](#) a'r [Gofynion Cyfleu](#). Dylid cymryd ystyriaeth o'r Gofynion Technegol a Gofynion Cyfleu wrth drafod y Ffi Drwydded a pharatoi cynlluniau cynhyrchu eraill.
- 5.2 Rhaid i'r holl Wybodaeth am y Rhaglen a'r deunyddiau technegol sy'n gysylltiedig â rhaglen gyrraedd ar y Dyddiad(au) Cyfleu neu cyn hynny (ac os yw'n berthnasol, erbyn yr amser penodedig) a nodwyd yn y Drwydded. Rhaid i unrhyw gynhyrchydd nad yw'n gallu cyfleu erbyn y Dyddiad Cyfleu cytundebol drafod y mater â Phennaeth Cynllunio S4C cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cadarnhau unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt mewn cytundeb atodol cyn iddynt ddod i rym.
- 5.3 Rhaid i raglenni gyrraedd yn barod i'w darlledu heb iddynt orfod cael eu dychwelyd i'r cynhyrchydd, er enghraifft, er mwyn cywiro camgymeriadau sillafu, ailosod teitlau neu sicrhau hawliau y dylid fod wedi eu clirio. Os bydd angen dychwelyd tâp i'r cynhyrchydd, nodir hyn mewn adroddiad i'r Cyfarwyddwr Comisiynu.
- 5.4 Gall S4C hawlio iawndâl ariannol penodedig am fethu cyfleu yn gywir ac yn brydlon. Bydd unrhyw fethiant yn cael ei ystyried wrth benderfynu a ddylid comisiynu'r cynhyrchydd yn y dyfodol hefyd.
- 5.5 Wedi cyfleu'r rhaglen, bydd S4C yn hysbysu'r cynhyrchydd os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau dan Adran 4.5.
- 5.6 Mae S4C yn cadw'r hawl i wneud newidiadau pellach am resymau golygyddol S4C yn llwyr. Nid yw S4C yn gwarantu y bydd yn darlledu'r rhaglen.
- 5.7 Bydd y cynhyrchydd yn cadw copi diogelwch o'r rhaglen a'r holl Wybodaeth am y Rhaglen 'wrth gefn', a fyddant ar gael i S4C os gwneir cais. Dylid cyllidebu ar gyfer cost y copi 'wrth-gefn' hwn wrth drafod y Ffi Drwydded.

6. Gwasanaethau Mynediad i Deledu

- 6.1 Bydd S4C yn penderfynu o ba ffnhonell y bydd deunydd mynediad i deledu (e.e. iaith arwyddion, isdeitlau neu sain-ddisgrifiad) ar gyfer y Rhaglen yn cael eu sicrhau, boed hynny yn fewnol, gan y cynhyrhydd neu gan drydydd parti. Bydd S4C yn nodi yn y Briff Golygyddol a Busnes a fydd angen i raglen gynnwys gwasanaethau mynediad i deledu pan fydd yn cael ei chyfleu ac, os felly, ym mha fformat y dylid eu cyfleu. Bydd lwfans yn cael ei gynnwys yn y Ffi Drwydded a gytunir arni.
- 6.2 Rhaid i unrhyw ddeunydd mynediad i deledu a ddarparir gan y cynhyrhydd gael ei gynhyrchu yn unol â'r [Gofynion Technegol](#), y [Canllawiau Isdeitlo](#), ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill a gyhoeddir ar wefan gynhyrchu S4C o bryd i'w gilydd. Bydd S4C yn berchen ar unrhyw ddeunyddiau mynediad i deledu a gomisiynir ganddi a bydd gan S4C yr hawl i'w golygu a'u defnyddio ac i awdurdodi eraill i'w defnyddio fel y mae S4C yn ystyried yn addas.

7. Hyrwyddo a Marchnata

- 7.1 Bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif yng Nghymru a'r hawl an-ecsgliwsif y tu allan i Gymru i hyrwyddo, marchnata a hysbysebu'r rhaglen ac unrhyw ymelwa gan S4C arni trwy gyfrwng pob modd neu ddull arferol ac ym mhob cyfrwng sy'n hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol, ac i ddefnyddio clipiau o'r rhaglen wrth wneud hynny.
- 7.2 Nid yw hyn yn atal y cynhyrhydd rhag hyrwyddo a marchnata'r rhaglen y tu allan i Gymru. Gall y cynhyrhydd hyrwyddo'r rhaglen yng Nghymru ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud ar y cyd ag S4C a gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig adran farchnata S4C. Bydd cynhyrchwyr yn cydweithredu ag adran farchnata S4C gan gynorthwyo'r adran gyda'r holl ymgyrchoedd hyrwyddo a hysbysebu a gynhelir gan S4C.
- 7.3 Bydd cynhyrchwyr yn cysylltu â swyddfa'r wasg ac adran farchnata S4C i drafod cyhoeddusrwydd ar gyfer eu rhaglenni a natur a graddau'r ymgyrch hyrwyddo (os gwbl) cyn gynted ag y bo modd ar ôl comisiynu'r rhaglenni.
- 7.4 Bydd S4C yn rhoi cydnabyddiaeth i'r cynhyrhydd mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu farchnata a gyhoeddir gan neu ar ran S4C o ran y rhaglen cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol (e.e. ar unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen, ar wefan gorfforaethol S4C ac mewn unrhyw ddatganiadau i'r wasg ond nid lle y mae cyfyngiadau maint/amser/dylunio yn ei wneud yn anymarferol).
- 7.5 Gall S4C hyrwyddo ailddarllediadau o raglenni a chyfres newydd o Gyfres sy'n Dychwelyd trwy gyfrwng clipiau estynedig o unrhyw gyfres flaenorol a/neu drwy arddangos bennod olaf y gyfres flaenorol yn gyfan gwbl (os bydd dan drwydded i S4C o hyd) trwy gyfrwng y Cyfryngau Newydd am gyfnod o saith (7) diwrnod cyn dangosiad arfaethedig y rhaglen a ailddarlledir neu'r gyfres newydd ar y teledu. Ni

fydd unrhyw ffi yn daladwy i'r cynhyrchydd ond bydd S4C yn gyfrifol am unrhyw daliadau clirio sy'n ddyledus. Os bydd fersiwn masnachol o'r rhaglen ar werth, ystyrir pa mor briodol fyddai i ymarfer yr hawl hon. Adolygir y trefniant hwn ym mis Mawrth 2007, pan fydd S4C, i'r graddau fod hynny'n ymarferol yn rhesymol, yn darparu ystadegau i TAC ynghylch pa mor aml y defnyddiwyd yr hawl hon.

7.6 Rhaid cyfleu'r deunydd canlynol i S4C o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad darlledu a fwriedir neu ar y Dyddiad Cyfleu cytundebol ar gyfer tâp y rhaglen os yw hynny'n gynt:

7.6.1 crynodeb yn y Gymraeg ac un yn y Saesneg (oddeutu 100 gair yr un);

7.6.2 rhestriad yn y Gymraeg ac un yn y Saesneg (oddeutu 50 gair yr un) a'r cydnabyddiaethau perthnasol;

7.6.3 unrhyw ddeunydd ffotograffig y mae S4C yn gofyn amdano ac yn talu amdano.

7.7 Ar gais S4C, bydd y cynhyrchydd yn cyflenwi deunydd i S4C ar gyfer hyrwyddiadau ar y sgrîn yn ddi-oed (o ystyried y dyddiad darlledu cyntaf a fwriedir ar gyfer y rhaglen). Pan fydd y cynhyrchydd yn ffilmio neu'n recordio deunydd hyrwyddo o'r fath yn ystod cyfnod cynhyrchu y rhaglen (pan fo'r personél priodol ar gael), disgwylir i'r cynhyrchydd ysgwyddo'r gost. Fel arall, bydd S4C yn talu'r costau rhesymol o ddarparu deunydd o'r fath, ac eithrio pan fo'r cais yn angenrheidiol o ganlyniad i fethiant gan y cynhyrchydd i gwrdd â'r Dyddiad Cyfleu cytundebol.

7.8 Ym mhob achos, bydd adran farchnata S4C yn gyfrifol am baratoi neu oruchwylio'r gwaith o baratoi unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar y sgrîn a thrêls ar gyfer darllediadau ar S4C (er y gall S4C ofyn i'r cynhyrchydd ddarparu deunydd neu gyflawni'r gwaith cynhyrchu ar ei rhan).

7.9 Ni ddylai unrhyw gynhyrchydd gomisiynu unrhyw waith celf/ffotograffau neu unrhyw ddeunydd hyrwyddo neu farchnata arall ar ran S4C neu ar gost S4C, heb sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig adran farchnata S4C ymlaen llaw.

8. Canllawiau Cydymffurfiaeth

8.1 Mae'r [Canllawiau Cydymffurfiaeth](#) yn weithredol i raglenni a gomisiynir gan S4C.

8.2 Rhaid i gynhyrchwyr gydymffurfio â'r [Chanllawiau Nawdd](#) a sicrhau cymeradwyaeth S4C ymlaen llaw ar gyfer unrhyw gydnabyddiaeth neu fudd arall o unrhyw fath y bydd unrhyw noddwr rhaglen neu drefnydd digwyddiad yn gofyn amdani. Yn benodol, gwaherddir lleoli cynnyrch ac amlygrwydd gormodol (fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Cydymffurfiaeth).

- 8.3 Gofynnir i gynhyrchwyr gysylltu ag [asiantau nawdd](#) S4C [*hypergyswllt*] cyn cymryd unrhyw gamau i sicrhau nawdd ar gyfer unrhyw raglen.

9. Materion Ariannol

Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Ganran wrth Drafod y Ffi Drwydded am amlinelliad o'r camau er mwyn cytuno ar y Ffi Drwydded.

9.1 *Arweiniad ar elfennau o'r gyllideb*

Deunydd trydydd parti a defnyddio deunydd archif o raglenni a gomisiynwyd gan S4C

- 9.1.1 Bydd manylion unrhyw ddeunydd trydydd parti yn cael ei gadarnhau fel rhan o'r broses gyllidebu a byddant yn cael eu nodi yn y Brîff Golygyddol a Busnes fel rhagdybiaeth i'r gyllideb. Pan fydd cynhyrchydd yn dymuno defnyddio clipiau o raglenni a gomisiynwyd gan S4C o'r blaen, dylai ystyried y [Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Craidd](#) gan dalu sylw i'r Polisi wrth gyllidebu.

Ffioedd Cyfreithiol

- 9.1.2 Mae Adran Gyfreithiol S4C yn cynrychioli buddiannau S4C. Er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro mewn buddiannau, dylai cynhyrchwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol lle bo hynny'n briodol. Mae S4C yn rhagweld na fydd y cyllidebau ar gyfer mwyafrif y rhaglenni a gomisiynir ganddi yn cynnwys lwfans ar gyfer cyngor cyfreithiol.

Yswiriant

- 9.1.3 Mae S4C yn mynnu bod cynhyrchwyr yn trefnu yswiriant cynhwysfawr ar bob rhaglen a gomisiynir gan S4C. Dylai cynhyrchwyr drafod y gofynion yswiriant ar gyfer cynhyrchu unrhyw raglen a gomisiynwyd gan S4C â [broceriaid yswiriant S4C](#) cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau bod trefniadau yswiriant addas yn eu lle cyn i'r cyfnod cyn-gynhyrchu gychwyn.

- 9.1.4 Mae S4C yn gweithredu [Cynllun hunan-yswiriant](#). Nid yw'r Cynllun yn cynnwys pob risg. Dylai cynhyrchwyr sy'n bwriadu defnyddio'r Cynllun fod yn ymwybodol o gwmpas a lefelau'r mantell yswiriant a gynigir ac o'r holl eithriadau sy'n weithredol. Mae modd trefnu yswiriant trwy gynnal trafodaethau rhwng y cynhyrchydd a [broceriaid yswiriant S4C](#) cyn belled ag y bod S4C o'r farn bod yr yswiriant ychwanegol yn angenrheidiol ac yn rhesymol. Bydd unrhyw bremiwm sy'n ddyledus i'r Cynllun yn cael ei ddidynnu o'r Ffi Drwydded gan S4C a'i dalu yn uniongyrchol i'r Cynllun ar ran y cynhyrchydd.

- 9.1.5 Mae'r Cynllun yn cynnig mantell yswiriant ar gyfer mwyafrif y rhaglenni a gomisiynir gan S4C. Pan fo S4C yn talu'r gost o gynhyrchu'r rhaglen yn llawn, disgwylir i'r cynhyrchydd yswirio'r rhaglen dan y Cynllun fel rheol (ond yn ddarostyngedig i'r asesiad o'r risg i'r cynllun). Pan fydd S4C yn ariannu cyfran is o'r gost o gynhyrchu'r rhaglen, dylid trafod y mater ag S4C a'i broceriaid yswiriant. Gan ddibynnu ar asesiad broceriaid yswiriant S4C o'r risg i'r Cynllun, mae'n bosibl na fydd y Cynllun yn cynnig yswiriant ar gyfer y rhaglen.

Ffi Gynhyrchu

- 9.1.6 Yn yr achosion hynny lle y cyflwynir cyllideb fanwl ac mae'r cynhyrchydd ac S4C felly yn trafod ffi gynhyrchu, bydd y drafodaeth yn digwydd fel rhan o'r broses o gytuno ar Ffi Drwydded. Negydir y ffi gynhyrchu yn unigol ym mhob achos, ond ym mwyafrif yr achosion, bydd y ffi a delir rhwng 5% a 9% o gostau uniongyrchol y rhaglen.
- 9.1.7 Pan fydd S4C yn ariannu gwaith datblygu, ni thelir ffi gynhyrchu. Fodd bynnag, os bydd rhaglen yn cael ei chomisiynu, cynhwysir y costau datblygu yng nghost y Rhaglen.
- 9.1.8 Bydd achosion yn codi lle y bydd S4C a'r cynhyrchydd yn cytuno ar Ffi Drwydded heb drafod ffi gynhyrchu benodol.

Hyfforddiant

- 9.1.9 Mae S4C yn cefnogi hyfforddiant yn y diwydiant, gan annog cynhyrchwyr i wneud yr un modd. Gofynnir i gynhyrchwyr gadarnhau a ydynt yn dymuno defnyddio gwasanaethau Cyfle Cyf. fel y corff hyfforddi cydnabyddedig ar gyfer y diwydiant yng Nghymru, a chyfrannu 0.25% (chwarter o un y cant) o'r Ffi Drwydded i Cyfle. Lle bo'r cynhyrchydd yn dymuno gwneud hynny, bydd S4C yn didynnu'r cyfraniad o'r rhandaliad olaf o'r Ffi Drwydded, a'i dalu yn uniongyrchol i Cyfle ar ei ran.
- 9.1.10 Pan na fydd y cynhyrchydd yn cyfrannu at Cyfle, gofynnir iddo gadarnhau hyn yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros ei benderfyniad i beidio cyfrannu. Pan fo'r cynhyrchydd yn aelod o TAC, bydd S4C yn rhoi copi i TAC.
- 9.1.11 Os yw'r cynhyrchydd yn cyfrannu i Cyfle neu beidio, bydd y cynhyrchydd yn cyflwyno cynllun hyfforddi i S4C gyda'r Briff Golygyddol a Busnes cyntaf a gwblhawyd gan y cynhyrchydd ar gyfer ei gomisiwn cyntaf i S4C ym mhob blwyddyn galendr. Mae S4C wedi paratoi [holiadur](#) i gynorthwyo gyda'r broses hon. Cyflwynir diweddariad i'r cynllun gyda'r Briff Golygyddol a Busnes ar gyfer pob rhaglen ddilynol a gomisiynir gan S4C

oddi wrth y Cynhyrhydd yn ystod y flwyddyn galendr dan sylw. Bydd y cynllun hyfforddi a'r diweddariad mewn [ffurf safonol](#), ac yn cadarnhau manylion y personél i'w hyfforddi, yr hyfforddiant a gynllunnir a'r cyfnod gweithredu. Yn ogystal, cedwir yr hawl i rannu manylion y cynllun hyfforddi gyda Skillset Cymru, sef y corff sy'n cydlynu gofynion hyfforddi yng Nghymru.

- 9.1.12 Bydd y cynllun hyfforddi (neu'r diweddariad pan fo hynny'n briodol) ynghlwm wrth y Drwydded.
- 9.1.13 Bydd y Cynhyrhydd yn cwblhau adroddiadau ac yn darparu unrhyw wybodaeth arall sydd eu hangen er mwyn galluogi S4C i fodloni ei ymrwymadau adrodd i Ofcom a'r Rheoleiddiwr Sgiliau a Hyfforddiant ym maes Darlledu o ran hyfforddiant. Bydd y cynhyrhydd, yn ystod mis Tachwedd ym mhob blwyddyn y mae'n cael comisiwn gan S4C, yn darparu adroddiad ar weithredu y cynllun hyfforddi a bydd y cyfryw adroddiad yn y fath ffurf ag a fynnir gan S4C.

Llif arian

- 9.1.14 Yn gyffredinol, bydd S4C yn talu y Ffi Drwydded yn unol â'r cynnydd ar y cynhyrchiad wedi ei fesur yn erbyn cerrig milltir golygyddol, cynhyrchu ac ariannol i'w cytuno gyda'r Rheolwr Uned yn y Briff Golygyddol a Busnes ac wedi i'r gwariant y mae'r rhandaliad hwnnw yn ei gwmpasu, ddigwydd.

9.2 *Monitro a Rheoli Costau*

Cyfrifon Banc

- 9.2.1 Pan fo S4C yn llif-ariannu taliadau wedi i'r gwariant ddigwydd neu pan fydd yn talu ar gyfleu'r rhaglen, nid yw S4C yn disgwyl i'r cynhyrhydd drefnu llythyr banc a chyfrif banc ar wahân.
- 9.2.2 Pan fydd S4C yn talu yn ôl amcangyfrif o batrwm gwariant y cynhyrchiad, bydd y cynhyrhydd yn agor cyfrif banc ar wahân ar gyfer pob cynhyrchiad, gan drefnu [llythyr banc](#) sy'n cadarnhau bod yr arian yn y cyfrif yn cael ei gadw ar ymddiredolaeth er budd S4C.
- 9.2.3 Gyda chytundeb S4C, gall y cynhyrhydd dalu (pan fo cyfrif ymddiredolaeth yn bodoli) unrhyw arian dros ben nad oes ei angen yn y tymor byr ac sy'n cael ei gadw yn y cyfrif cynhyrchu, i gyfrif cadw sy'n cynnig llog, er y gall S4C fynnu bod yr arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i S4C nes bydd ei angen ar gyfer y cynhyrchiad. Bydd angen

sicrhau llythyr ymddiriedolaeth ychwanegol gan y banc ar gyfer unrhyw fath o gyfrif cadw sy'n cynnig llog.

Datganiadau ac Adroddiadau Costau

- 9.2.4 Bydd y cynhyrchydd yn cadw cofnodion ariannol digonol a fydd yn galluogi S4C i greu trywydd archwilio o'r costau cynhyrchu.
- 9.2.5 Bydd S4C a'r cynhyrchydd yn cytuno ar ffurf ac amllder unrhyw adroddiadau costau wrth drafod y llif arian ar gyfer y cynhyrchiad.
- 9.2.6 Dylid cyfleu adroddiadau costau ar y dyddiadau y cytunwyd arnynt yn yr Atodlen llif arian gan gymharu'r gwariant yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni a nodi unrhyw amrywiadau yn y gwariant a allai arwain at danwariant neu orwariant yn nes ymlaen yn y cynhyrchiad. Disgwylir i unrhyw adroddiadau adlewyrchu'r un lefel o fanylder â'r trafodaethau cyllidebol, e.e. os oedd y trafodaethau cyllidebol yn canolbwyntio ar gostau allweddol yn unig, yna dylai'r adroddiadau ganolbwyntio ar y costau hynny, tra'n cadarnhau bod gweddill y costau yn y gyllideb yn gyson â'r gyllideb o hyd.

Adroddiad Cost Terfynol

- 9.2.7 Dylai'r cynhyrchydd ddarparu adroddiad cost terfynol ym mhob achos. Disgwylir i'r cynhyrchydd ddarparu'r adroddiad cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r cyfnod cynhyrchu ddod i ben a chyn pen 4 mis o gyfleu'r copïau darlledu (sef cyfleu'r bennod olaf yn achos cyfres). Bydd disgwyl i'r adroddiad cost terfynol adlewyrchu'r un lefel o fanylder â'r trafodaethau cyllidebol, e.e. os oedd y trafodaethau cyllidebol yn canolbwyntio ar gostau allweddol yn unig, dylai'r adroddiad ganolbwyntio ar y costau hynny, tra'n adrodd ar gostau terfynol pob adran sy'n weddill o'r gyllideb fel cyfansymiau. Telir y rhandaliad olaf (yn ddarostyngedig i gydymffurfio â'r gofynion cyfleu cytundebol) pan dderbynnir adroddiad cost terfynol boddhaol gan y cynhyrchydd ac (lle y mae S4C yn ymarfer yr hawl), yn dilyn archwiliad manwl o gostau'r cynhyrchiad. Os nad yw cost y drwydded gerddoriaeth gan yr MCPS yn wybyddus ar yr adeg honno, bydd angen i'r partïon drafod lwfans realistig ar gyfer y gost hon gan gadw'r swm mewn cyfrif ar wahân nes derbynnir ym anfoneb.

Archwiliadau Costau

- 9.2.8 Yn gyffredinol, bydd S4C yn gweithredu trefn o archwilio ar hap ar draws pob comisiwn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau sy'n bodoli gyda'i harchwilwyr er mwyn sicrhau gwerth gorau ac atebolrwydd S4C am arian cyhoeddus.

- 9.2.9 Ym mhob achos, mae S4C yn cadw'r hawl i archwilio'r cyfrifon a'r cofnodion o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac i archwilio'r costau llawn yn fanwl. Yn benodol, gall S4C archwilio unrhyw raglen:
- sy'n gomisiwn cyntaf i'r cynhyrchydd, neu os yw'r personél rheoli cyllid newydd gychwyn yn eu swyddi neu'n amhrofiadol, neu os bu problemau gweinyddol yn ystod y broses gynhyrchu; neu
 - os ceir amrywiadau sylweddol (uwch neu is) i'r Ffi Drwydded; neu
 - os yw'r rhaglen fel y'i chyflëir yn wahanol i'r Brîff Golygyddol a Busnes/delerau'r Drwydded.
- 9.2.10. Wedi derbyn yr adroddiad cost terfynol, bydd y Rheolwr Uned yn cadarnhau os cynhelir archwiliad manwl neu beidio. Yn gyffredinol, bydd yr archwiliad manwl yn digwydd cyn pen 3 mis o dderbyn yr adroddiad hwn. Ni fydd rhandaliad olaf y Ffi Gynhyrchu/y Ffi Drwydded yn ddyledus nes bydd S4C wedi cael y cyfle i gynnal archwiliad manwl o'r adroddiad cost terfynol. Os na chynhelir unrhyw archwiliad manwl, bydd S4C yn rhyddhau'r rhandaliad olaf, ond bydd yn cadw'r hawl i weld y cyfrifon a'r cofnodion.

Gorwariant

- 9.2.11 Bydd y cynhyrchydd yn talu unrhyw orwariant.
- 9.2.12 Yr unig eithriadau i'r uchod yw'r canlynol:
- lle bo'r gwariant ychwanegol yn deillio o newidiadau yn y [Brîff Golygyddol a Busnes](#) sy'n cael eu gwneud ar gais y Comisiynydd a lle bo S4C wedi cytuno i hyn yn ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid fod wedi trafod a chytuno ar y costau net ychwanegol ymlaen llaw a'u cadarnhau mewn cytundeb atodol a drefnwyd gan y Rheolwr Uned. Bydd y cytundeb atodol yn cynyddu'r Ffi Drwydded ar gyfer y rhaglen; neu
 - pan fo S4C yn cytuno bod y gorwariant wedi codi am resymau y tu hwnt i reolaeth y cynhyrchydd, pan y gall S4C, yn ôl ei disgrisiwn ei hun, gytuno cyfrannu at y gorwariant naill ai ar sail benthyciad i'r cynhyrchydd neu ar y sail bod cyfraniad ychwanegol S4C yn cael ei ad-dalu o'r Enillion Net yn y safle cyntaf.

Tanwariant

- 9.2.13 Bydd y cynhyrchydd yn berchen ar unrhyw danwariant sy'n deillio o gynhyrchu'r rhaglen ar yr amod bod S4C yn fodlon nad yw unrhyw danwariant o'r fath wedi codi ar draul cynnwys golygyddol neu dechnegol y rhaglen neu yn sgil torri amodau'r Drwydded neu'r hyn y cytunwyd yn y Brîff Golygyddol a Busnes (e.e. lle bo'r cynhyrchydd wedi gwario llai ar yr elfennau allweddol neu ar ansawdd y rhaglen ar y sgrîn neu lle bo

gwerthoedd cynhyrchu y rhaglen yn is na'r hyn y cytunwyd arnynt yn y Briff Golygyddol a Busnes).

10. Bargeinio Torfol

- 10.1 Mae S4C yn annog cynhyrchwyr i bennu a gweithredu polisiau a threfniadau perthnasau diwydiannol addas sy'n gyson â safonau ac arferion y diwydiant. Mae o fantais i S4C bod cyfranwyr creadigol i raglenni a ddarlledir ar S4C o unrhyw ffynhonnell, wedi cael eu cytundebu yn unol ag amodau cytundebau perthnasau diwydiannol priodol a gydnabyddir gan S4C (sef fel rheol y cytundebau perthnasau diwydiannol a negydwyd gan TAC â'r Undebau/Urdd sy'n cynrychioli cyfranwyr creadigol yn benodol ar gyfer rhaglenni a gomisiynir gan S4C ac/neu'r cytundebau a negydwyd gan PACT â'r Undebau/Urdd er budd ei aelodau). Pan fydd cynhyrchydd yn gwneud trefniadau uniongyrchol gyda'r Undebau/Urdd a/neu'r cyfranwyr creadigol i'w raglenni, mae S4C yn cadw'r hawl i gymeradwyo'r trefniadau hynny yn benodol.
- 10.2 Mae S4C a TAC yn trafod trefniadau fydd yn golygu bod cynhyrchwyr yn cyfrannu at y gronfa a reolir gan Gymdeithas Hawliau Cyfarwyddwyr a Chynhyrchwyr ('DPRS') ar ran ei haelodau. Wedi iddynt gael eu cytuno, caiff y trefniadau eu gweithredu yn y modd a gytunir rhwng S4C a TAC.

11. Cyfrifoldebau Statudol

Cyfleoedd Cyfartal

- 11.1 Mae S4C yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Nid yw S4C yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd neu gredo, oedran, anabledd, gogwydd rhywiol na statws priodasol wrth gyflogi staff neu mewn unrhyw rai o'i pholisiau cyflogaeth eraill. Ystyrir pobl anabl, os ydynt wedi'u cofrestru fel pobl anabl neu beidio, yn llawn ac yn deg ar gyfer pob swydd wag, a rhoddir yr un cyfleoedd iddynt â'r cyfleoedd a gynigir i aelodau eraill o staff o ran hyfforddiant, datblygiad gyrfa a sicrhau dyrchafiad swydd.
- 11.2 Bwriad S4C yw bod pob cynhyrchydd sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C yn mabwysiadu ac yn dilyn polisiau cyflogaeth tebyg.

Cydraddoldeb Hiliol

- 11.3 Mae S4C wedi ymrwymo i ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil ac i hybu cyfleoedd cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol. Cred S4C y gall teledu gyflawni rôl wrth hybu

cyfleoedd cyfartal ac mae'n cefnogi amrywiaeth ethnig ar gynhyrchiadau ac ar y sgrîn.

Rhyddid Gwybodaeth

- 11.4 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl cyffredinol i unigolion weld pob math o wybodaeth sydd wedi ei chofnodi a'i chadw gan awdurdodau cyhoeddus. Rhaid hysbysu unrhyw un sy'n gwneud cais statudol ysgrifenedig i awdurdod cyhoeddus am wybodaeth a yw'r awdurdod cyhoeddus yn cadw gwybodaeth o'r fath neu beidio, ac, os ydyw, mae'n rhaid iddo ddarparu'r fath wybodaeth iddo/i.
- 11.5 Er bod y Ddeddf yn nodi nifer o eithriadau i'r hawl i gael gwybodaeth, dylai cynhyrchwyr fod yn ymwybodol y bydd dyletswydd ar S4C i ystyried a fyddai caniatáu unrhyw gais penodol am y wybodaeth a nodir yn y cais yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw rai o'r eithriadau hyn.
- 11.6 Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldebau S4C dan y Ddeddf yng [Nghynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth S4C](#).

Plant

- 11.7 Mae'r gyfraith yn cynnwys rheolau i warchod plant pryd bynnag y byddant yn ymwneud â'r broses gynhyrchu, e.e. rheolau sy'n rheoleiddio eu horiau gwaith, sy'n eu hatal rhag gweithio mewn mannau peryglus, sy'n gofalu am eu hanghenion addysgol ac yn mynnu bod trwyddedau gan yr awdurdodau lleol perthnasol a threfniadau gwarchod priodol yn bodoli. Rhaid i gynhyrchwyr gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 bob amser. Bydd [Polisi Amddiffyn Plant](#) S4C (fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd) yn weithredol hefyd a bydd yn rhaid i bob cynhyrhydd sy'n delio â phlant, gydymffurfio â'r Polisi er mwyn sicrhau bod lles y plant yn cael ei ddiogelu ar bob adeg (gan gynnwys sicrhau bod y staff sy'n gweithio gyda phlant wedi cael eu harchwilio ymlaen llaw). Sylwer os gwelwch yn da ar y rheol bod yn rhaid i bob cynhyrchiad sy'n cynnwys plant gael person dynodedig sydd wedi'i hyfforddi gan yr NSPCC at ddibenion gwarchod plant. Cynhwysir rhagor o fanylion yn y [Polisi Amddiffyn Plant](#). Nid yw polisi S4C yn disodli'r ymrwymadau statudol ar gynhyrchwyr yn y maes hwn.
- 11.8 Mae rheolau llym yn bodoli mewn perthynas â pharatoi adroddiadau am achosion llys sy'n cynnwys plant. Ym mhob achos, dylai cynhyrchwyr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu orchmynion a roddir gan lys sy'n gwahardd rhyddhau unrhyw fanylion am unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan mewn unrhyw achos llys mewn unrhyw ffordd, boed hynny dan y Deddfau Plant a Phobl Ifanc, neu fel arall.

Iechyd a Diogelwch

- 11.9 [Polisi iechyd a diogelwch](#). Nod yw sicrhau bod pob cynhyrchydd yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch ar gynhyrchiadau, a bod yr holl ofynion ac oblygiadau iechyd a diogelwch o ran y cynhyrchiad yn cael eu hasesu a'u hystyried wrth gynllunio a chyllidebu ar gyfer y rhaglen.
- 11.10 Atgoffir cynhyrchwyr, fodd bynnag, mai nhw sydd yn gyfrifol am ddiogelwch pawb sy'n ymwneud â'u cynhyrchiadau a bod y Deddfau Iechyd a Diogelwch yn gosod y cyfrifoldeb hwn arnynt. Nid yw polisi S4C yn disodli'r cyfrifoldebau statudol hyn.
- 11.11 Mae'r [Polisi Iechyd a Diogelwch](#) (ymhlith materion eraill) yn mynnu bod cynhyrchwyr yn penodi unigolyn cymwys i fod yn rhan o'r tîm cynhyrchu (rhywun sydd wedi cwblhau cwrs iechyd a diogelwch o ran cynhyrchiadau teledu a ffilm a gydnabyddir gan S4C ac sydd wedi'u cofrestru fel 'person cymwys' gan S4C). Os na fydd gan y 'person cymwys' y cyfrifoldeb terfynol ar ran y cynhyrchydd dros gyflawni'r cytundeb, gweinyddu'r gyllideb a chynhyrchu'r rhaglen, yna rhaid i'r unigolyn sydd â'r fath gyfrifoldeb feddu ar yr un cymwysterau iechyd a diogelwch â'r 'person cymwys'.
- 11.12 Bydd y cynhyrchydd yn dilyn cyngor y person cymwys o ran pob agwedd o gynllunio, cyllidebu a chynhyrchu'r rhaglen a bydd yn sicrhau bod y person cymwys yn asesu'r holl risgiau o ran pob agwedd a chymal o'r cynhyrchiad, ac yn llunio systemau a gweithdrefnau ac fel arall yn cynghori'r cynhyrchydd ar sut i ddileu neu leihau'r peryglon posibl gymaint ag y bo modd.

Gwarchod Data

- 11.13 Gall S4C brosesu'r holl ddata personol a gyflenwir i S4C mewn cysylltiad â'r rhaglen, at ddibenion ymarfer yr Hawliau. Bydd y cynhyrchydd y sicrhau caniatâd yr holl unigolion perthnasol fel y gall S4C brosesu eu data personol at y diben hwn. Bydd y cyfryw ddata personol a gyflenwir i S4C yn cael ei brosesu yn unol â Pholisi Gwarchod Data S4C.

12. Hawlfraint a Chydnabyddiaeth

Dan [God Ymarfer](#) S4C, mae unrhyw hawliau mewn unrhyw raglen a gomisiynir gan S4C gan gynhyrchydd annibynnol ar sail trwydded (ac eithrio Hawliau S4C a roddir yn benodol i S4C gan y cynhyrchydd annibynnol) yn parhau i fod yn eiddo llwyr y cynhyrchydd. Mae hyn yn golygu bod yr hawlfraint mewn unrhyw raglen o'r fath (gan

gynnwys unrhyw hawlfraint sy'n bodoli yn annibynnol yn Rhaglen S4C) yn eiddo llwyr y cynhyrchydd annibynnol.

Bydd rhaglenni a gomisiynir dan God Ymarfer S4C yn cynnwys yr hysbysiad hawlfraint a chydabyddiaeth canlynol:-

“Cynhyrchiad [cynhyrchydd] ar gyfer S4C”

“©[cynhyrchydd] [blwyddyn]”

13. Hawliau

- 13.1 Yn unol â Chanllawiau OFCOM, mae [Cod Ymarfer S4C](#) yn pennu'r pecyn isafswm o hawliau y bydd S4C yn disgwyl ei sicrhau mewn unrhyw raglen neu gyfres a gynigir i S4C ar sail trwydded, sef yr 'Hawliau Craidd'. Gall y pecyn hawliau y bydd S4C yn ei sicrhau mewn gwirionedd amrywio o raglen i raglen a bydd yn cael ei gadarnhau yn y Drwydded. Mae'r Hawliau Craidd yn cynnwys:

Hawliau Darlledu

- 13.2 Bydd gan S4C yr hawliau teledu unigryw ac ecsgliwsif yn y Rhaglen yn y DU yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded. Hynny yw, er mai dim ond yr hawl i ddarlledu Rhaglen S4C sydd gan S4C, bydd gan S4C yr hawl i wahardd unrhyw Ddarllediadau o'r Rhaglen mewn unrhyw iaith ar unrhyw sianelau neu wasanaethau eraill a geir yn y DU yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded.
- 13.3 Bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ddarlledu ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded:
- 13.3.1 Rhaglen S4C gyda neu heb isdeitlau Saesneg a/neu Gymraeg a/neu ddeunydd mynediad i deledu arall;
 - 13.3.2 trwy unrhyw ddull o deledu boed yn llinol neu'n rhyngweithiol a boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol, gan gynnwys ar bob plattform analog a digidol a rhwydweithiau priodol fel y diffinnir ym mharagraff 5(8) o Atodlen 12 y Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ond ac eithrio trwy ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd;
 - 13.3.3 ar Wasanaethau S4C.
- 13.4 Bydd nifer y darllediadau y bydd gan S4C yr hawl iddynt yn ddibynnol ar *genre* y rhaglen:-

- 13.4.1 Ar gyfer pob *genre* ac eithrio Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol, bydd gan S4C dri phecyn darlledu lle y diffinnir bod pecyn yn cynnwys hyd at bum (5) darllediad o fewn cyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28), y gall hyd at ddau ohonynt fod yn ddarllediadau cydamserol ar S4C Analog ac S4C Digidol, ar yr amod bod yr ail o'r ddau ddarllediad cydamserol hyn yn cael eu darlledu o fewn saith (7) diwrnod o'r un cyntaf, a'r darllediadau sy'n weddill ar S4C Digidol yn unig. Ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Drwydded neu Gyfnod Estynedig y Drwydded, gall S4C ddewis cyfnewid un o'r pecynnau am hyd at chwe darllediad ar S4C Digidol yn unig, i'w darlledu ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Drwydded neu Gyfnod Estynedig y Drwydded;
- 13.4.2 Ar gyfer Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol, nifer digyfyngiad o ddarllediadau yn ystod Cyfnod y Drwydded a Chyfnod Estynedig y Drwydded.
- 13.5 Bydd Cyfnod y Drwydded yn bum (5) mlynedd ar gyfer pob rhaglen ac eithrio Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol, lle y bydd yn saith (7) mlynedd. Bydd Cyfnod y Drwydded yn cychwyn ar ddyddiad y darllediad cyntaf gan S4C. Yn achos cyfres, bydd gan bob pennod gyfnod trwydded unigol a fydd yn cychwyn ar y dyddiad y'i darlledwyd am y tro cyntaf gan S4C. Os na fydd S4C wedi darlledu rhaglen (neu'r bennod gyntaf yn achos cyfres) cyn pen chwe (6) mis o'i chyfleu i S4C yn unol â'r Drwydded, bydd Cyfnod y Drwydded yn cychwyn pan fydd y cyfryw gyfnod o chwe mis yn dod i ben. Fodd bynnag, nid yw hyn yn weithredol i ffilmiau neu raglenni a gomisiynir dan [bolisi theatrig](#) S4C neu i raglenni a gomisiynwyd ymhell o flaen llaw o'u dyddiad darlledu disgwylidig neu pan fo'r cynhyrchydd yn dymuno cynhyrchu a chyflwyno'r rhaglen yn gynt na'r Dyddiad Cyfleu cytundebol, ac mewn achosion o'r fath, bydd Cyfnod y Drwydded yn cychwyn ar ddyddiad y darllediad cyntaf gan S4C.
- 13.6 Bydd gan S4C yr hawl i brynu pecynnau darlledu ychwanegol yn ystod Cyfnod y Drwydded neu Gyfnod Estynedig y Drwydded trwy dalu ffi bellach i'r cynhyrchydd yn unol â Thabl 1 o'r [tablau ffioedd](#).
- 13.7 Pan fydd rhaglen a gomisiynwyd yn wreiddiol fel Rhaglen Blant neu Raglen Addysgol yn hwyrach yn cael ei hamserlennu i'w darlledu fel rhan o amserlen gyffredinol S4C (h.y. y tu allan i'r oriau a neilltuwyd ar gyfer rhaglenni o'r fath), bydd S4C yn gwneud taliad bonws i'r cynhyrchydd yn unol â Thabl 3 o'r [tablau ffioedd](#) er mwyn sicrhau'r hawl i'w darlledu fel rhan o'r amserlen gyffredinol, trwy gyfrwng y tri phecyn darlledu a ddisgrifiwyd uchod.
- 13.8 Pan fydd y pecynnau darlledu yn cynnwys yr hawl i ddarlledu'r Rhaglen hyd at nifer penodol o weithiau trwy gyfrwng Darllediadau Cydamserol, gall S4C ddewis darlledu'r rhaglen ar S4C Digidol yn lle hynny.

Hawliau Cyfryngau Newydd

- 13.9 Diffinnir yr Hawliau Cyfryngau Newydd yn y [Drwydded](#). Bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd:-
- 13.9.1 yn achos Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol am gyfnod o 35 diwrnod (fel uchafswm) ar ddau achlysur yn unig yn ystod unrhyw flwyddyn pan ddarllleddir y rhaglen berthnasol;
 - 13.9.2 yn achos unrhyw gategori arall o raglen, yn ystod cyfnod unrhyw becyn darlledu ac am 7 diwrnod wedi hynny h.y. ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 35 diwrnod (mewn cyfanswm). Os yw S4C yn ymarfer ei opsiwn i gyfnewid y fath becyn o ddarllediadau am becyn o 6 darllediad ar S4C Digidol, gall S4C ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd yn y cyfryw raglen ar unrhyw adeg (ar gais y gwylwr) o fewn 7 diwrnod o unrhyw un neu fwy o'r chwe darllediad ar S4C Digidol.
- 13.10 Ni fydd S4C yn awdurdodi lawrlwytho'r Rhaglen oni bai ei fod wedi defnyddio technoleg rheoli hawliau digidol i sicrhau na fydd modd i'r defnyddiwr gadw copïau o'r Rhaglen ar ôl i'r cyfnod o 35 diwrnod y cyfeiriwyd ato uchod ddod i ben.
- 13.11 Os bydd S4C yn penderfynu (boed ar adeg trafod a chytuno ar y [Briff Golygyddol a Busnes](#) neu wedi hynny) bod S4C yn dymuno defnyddio'r rhaglen ar y Cyfryngau Newydd yn fwy helaeth na'r hyn a ganiateir uchod neu mewn unrhyw fodd sy'n wahanol i'r drwydded a roddwyd uchod, bydd S4C yn trafod ei chynlluniau gyda'r cynhyrchydd, a byddant yn ymdrechu i gytuno ar delerau a fydd yn galluogi S4C i wneud hynny.
- 13.12 Lle bo S4C a'r cynhyrchydd yn cydnabod bod y rhaglen o werth neu ddiddordeb addysgol (boed ar adeg comisiynu'r rhaglen neu wedi hynny, e.e. os bydd cynnwys y rhaglen yn dod yn rhan o faes astudio unrhyw bwnc dan y Cwricwlwm Cenedlaethol), bydd S4C a'r cynhyrchydd yn trafod mewn ewyllys da os oes gan y cynhyrchydd unrhyw gynlluniau i ymelwa ar Raglen S4C ar y Cyfryngau Newydd ac, yn benodol, i wneud y rhaglen ar gael i'r rhai sy'n dymuno ei gwyllo/defnyddio at ddibenion addysgol. Bydd y partion yn ymdrechu i gytuno ar sut y dylid gwneud y rhaglen ac unrhyw ddeunydd atodol ar gael, gan bwy ac ar ba delerau, ond mae S4C yn cydnabod mai'r cynhyrchydd fydd â'r opsiwn cyntaf i wneud hynny.
- 13.13 Os nad yw'r cynhyrchydd yn bwriadu gwneud Rhaglen S4C ar gael mewn ffordd a fyddai'n galluogi pobl i'w ddefnyddio i'r perwyl hwn o fewn cyfnod rhesymol (heb fod dros 2 fis) o adnabod y cyfle, ac nid yw'r cynhyrchydd wedi hysbysu S4C o unrhyw resymau dilys dros beidio ei ryddhau, gall S4C ddewis ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd yn Rhaglen S4C 'ar gais' yn ystod y fath gyfnod ag y mae'r deunydd o ddiddordeb addysgol.

Ataliadau

- 13.14 Ac eithrio yn achos yr Hawliau Cyfryngau Newydd, mae'r ataliad yn weithredol i'r DU yn unig. Trowch at Adran 13.9 am fanylion parthed yr Ataliad o ran yr Hawliau Cyfryngau Newydd. Gall y cynhyrhydd ymelwa ar y rhaglen mewn unrhyw gyfrwng neu mewn unrhyw ddull neu fodd (ac eithrio'r Hawliau Cyfryngau Newydd) y tu allan i'r D.U. yn ystod cyfnod yr Ataliad. Gall y Cynhyrhydd ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd y tu allan i'r DU yn ystod cyfnodau ymelwa ar y Cyfryngau Newydd ecsgliwsif S4C y cyfeirir atynt yn Adran 13.9 os bydd yn gallu bodloni S4C bod y dechnoleg angenrheidiol yn bodoli i sicrhau nad oes unrhyw bosibilrwydd y bydd unrhyw ymarfer o'r fath yn effeithio ar y DU yn sgil gorlifo signalau neu fel arall. Gall y cynhyrhydd ymarfer yr Hawliau Cyfryngau Newydd yn fersiwn Saesneg y Rhaglen yn y DU y tu allan i cyfnodau ymelwa ar y Cyfryngau Newydd ecsgliwsif S4C y cyfeirir atynt yn Adran 13.9.
- 13.15 Ni fydd y cynhyrhydd na'i drwyddeion yn ymelwa ar y Rhaglen:
- 13.15.1 mewn unrhyw gyfrwng yn y DU tan i'r cyfnod o saith niwrnod wedi'r darllediad cyntaf gan S4C o Raglen S4C (sef y darllediad cyntaf o'r bennod olaf yn achos cyfres) ddod i ben; neu
- 13.15.2 trwy unrhyw ddull o Ddarlledu yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded neu ar unrhyw adeg cyn cychwyn cyfnod y Drwydded. Lle bo'r rhaglen yn gyfres sy'n dychwelyd, bydd yr Ataliad yn erbyn darlledu yn weithredol yn yr un modd i bob rhaglen y mae'r Rhaglen yn Rhaglen/Cyfres Ddilynol iddi er gwaetha'r modd y gallai'r ataliad gwreiddiol sy'n berthnasol i'r rhaglenni hyn fod wedi dod i ben. Bydd S4C wastâd yn fodlon trafod y posibilrwydd o gytuno ar gyfnod ataliad byrrach er mewn galluogi'r cynhyrhydd i ymelwa ar y Rhaglen neu ganiatáu i ddarlledwyr eraill yn y DU i ddarlledu'r Rhaglen neu addasiad o'r Rhaglen neu raglen debyg i ac sy'n deillio o'r Rhaglen yn ystod Cyfnod y Drwydded. Nid oes unrhyw orfodaeth ar S4C i gytuno ar ataliad byrrach.
- 13.16 Bydd unrhyw gytundeb o'r fath ar sail fasnachol. Bydd S4C yn disgwyl rhyw fantais yn gyfnewid am hyn, megis cyfran uwch o'r Enillion Net, hawliau ychwanegol yn y rhaglen uwchlaw'r Hawliau Craidd a/neu Gyfnod y Drwydded hirach. Yn ogystal, gall S4C fod yn fodlon ildio'r ataliad er mwyn galluogi'r cynhyrhydd i sicrhau arian trydydd parti ar gyfer y rhaglen, lle bo S4C yn talu Ffi Drwydded is o ganlyniad. Bydd pob cytundeb i ildio'r ataliad yn cael ei negydu yn unigol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Cliriadau

- 13.17 Bydd y Drwydded yn nodi pa ddarllediadau a pha ddefnydd o'r rhaglen y dylid eu clirio ymlaen llaw a pha ddarllediadau a pha ddefnydd a fydd yn denu taliadau

Ailddarlledu a Gweddill-daliadau gan S4C i gyfranwyr i'r rhaglen, perchnogion deunydd hawlfraint trydydd parti megis deunydd archif a ffotograffau a deiliaid hawliau trydydd parti eraill. Rhaid i'r cliriadau ganiatáu darlledu trwy loeren digidol, trwy deledu daearol digidol a thrwy deledu cebl digidol ac unrhyw gyfrwng digidol arall (ac, yn benodol, er mwyn i S4C allu eu darlledu ar deledu lloeren heb eu hamgryptio a lle all y signal orlifo y tu allan i'r DU) a'r hawliau ad-drosglwyddo y cyfeirir atynt yn Adran 13.41.3;

- 13.18 S4C fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd ailddarlledu neu ddefnyddio neu weddill-daliadau sy'n daladwy i unrhyw gyfrannwr i'r rhaglen neu berchennog hawliau am unrhyw ddefnydd o'u cyfraniadau i'r rhaglen sy'n ychwanegol i'r hyn a gliriwyd ymlaen llaw o fewn y Ffi Drwydded. Yn ddarostyngedig i'r adran ganlynol, y cynhyrchydd fydd yn gyfrifol am sicrhau ei bod yn hawdd clirio defnydd ychwanegol, a bod cost y cliriadau ychwanegol (wedi eu dosrannu fesul cyfrwng a hyd yr hawliau) a'r holl fanylion cyswllt perthnasol wedi eu nodi'n glir fel rhan o'r Wybodaeth am y Rhaglen.
- 13.19 Mae S4C yn cydnabod y cytunwyd ar delerau i alluogi ymelwa ar gyfraniadau actorion, cerddorion ac awduron sgriptiau ar rai o'r Cyfryngau Newydd ond nid ar bob un ohonynt. Ni fydd S4C yn disgwyl i'r cynhyrchydd glirio'r cyfraniadau hyn ar gyfer y Cyfryngau Newydd hynny lle nad yw'r trefniadau angenrheidiol wedi eu cwblhau ar yr adeg dan sylw.

Yr Hawl i Greu a Chynnal Gwefan sy'n Atodol i Raglen ar gyfer y Rhaglen

- 13.20 Yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i greu a chynnal gwefan neu wefannau sy'n atodol i'r rhaglen ar gyfer Rhaglen S4C a'r hawl i ddefnyddio clipiau neu ddarnau o Raglen S4C ar unrhyw wefan(nau) sy'n atodol i'r rhaglen ac ar unrhyw wefan(nau) corfforaethol/generig S4C neu ei Chwmnïau Teulu. Bydd defnydd o'r fath at ddibenion hyrwyddo.
- 13.21 Bydd S4C a'r cynhyrchydd yn trafod a ddylid creu a chynnal gwefan sy'n atodol i'r rhaglen neu dudalennau ar wefan S4C ar gyfer y rhaglen ac, os felly, gan bwy a phwy fydd yn talu am hyn. Byddant yn trafod y mater mewn ewyllys da gan geisio cytuno ar drefniadau addas yn y [Briff Golygyddol a Busnes](#) neu yn nes ymlaen os bydd yn dod i'r amlwg y byddai'n fuddiol gwneud hynny. Os ceir cytundeb y dylid creu gwefan neu dudalennau ar y we ar gyfer y rhaglen, bydd y partion yn trafod ac yn ymdrechu i gytuno ar natur, cynnwys (gan gynnwys pa ddeunydd sy'n perthyn i'r cynhyrchydd a pha ddeunydd newydd a ddefnyddir yn y wefan), safon y wefan, amseriad ei harddangos ac am ba mor hir y dangosir y wefan a'r cydnabyddiaeth ar gyfer y cynhyrchydd.

- 13.22 Lle bo S4C yn comisiynu gwefan yn hytrach na'i chynhyrchu yn fewnol, bydd y fath gomisiwn yn annibynnol o'r drwydded ar gyfer y rhaglen ac ni fydd [Cod Ymarfer](#) S4C yn berthnasol. Bydd y telerau yn cael eu negydu yn unigol rhwng y partïon. Yn gyffredinol, bydd S4C yn disgwyl fod yn berchen ar yr hawlfraint yn y wefan ac mewn unrhyw ddeunyddiau (boed yn destun, yn waith graffig, yn waith celf arall, yn ddata, yn wybodaeth neu'n unrhyw gynnwys arall) sy'n deillio o'r comisiwn.
- 13.23 Bydd gan S4C yr hawl i greu neu gomisiynu deunydd(iau) newydd ar gyfer y wefan (gan gynnwys deunyddiau neu elfennau rhyngweithiol) sy'n cynnwys neu a seiliwyd ar unrhyw gymeriadau, lleoliadau, themâu, straeon neu eitemau eraill yn y rhaglen. Bydd S4C yn cydnabod perchennog hawlfraint y rhaglen ac yn aseinio'r hawlfraint mewn unrhyw waith celf newydd sydd wedi'i seilio ar waith celf y perchennog (ond yn ddarostyngedig i drwydded o blaid S4C i'w ddefnyddio ar y wefan) i perchennog y rhaglen.
- 13.24 Er mwyn osgoi amheuaeth:
- 13.24.1 bydd gan S4C yr hawl (ond nid yw'n ymrwymo) i ddangos unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen ar unrhyw adeg ac o bryd i'w gilydd yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded, oni bai bod S4C wedi cytuno fel arall gyda'r cynhyrchydd;
- 13.24.2 bydd gan S4C yr hawl i addasu, diweddarau a datblygu unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen ar unrhyw adeg ac o bryd i'w gilydd yn ystod Cyfnod y Drwydded ac unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded neu'r fath gyfnod byrrach ag a cytunir arno;
- 13.24.3 gall unrhyw wefan sy'n atodol i'r rhaglen sy'n cael ei sefydlu gan S4C, fod yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn ôl disgrisiwn S4C, er mai diben y wefan yw hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i ddarllediadau S4C o Raglen S4C;
- 13.24.4 er gwaethaf hawliau unigryw ac ecsgliwsif S4C, nid yw'r uchod yn atal y cynhyrchydd rhag creu neu ddangos gwefan(nau) eraill (gan gynnwys gwefan(nau) masnachol) wedi'u seilio ar y raglen neu unrhyw elfen ohoni ar yr amod bod y cynhyrchydd yn sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer unrhyw wefan(nau) o'r fath ymlaen llaw. Ni fydd S4C yn gwrthod rhoi ei chymeradwyaeth yn afresymol ond bydd yn rhesymol i S4C wrthod rhoi ei chymeradwyaeth dan yr amgylchiadau canlynol:
- os na fydd gwefan yn bodloni safonau technegol S4C; neu
 - os na fydd gwefan yn cyd-fynd â natur, naws a chynnwys y rhaglen neu fel arall yn tanseilio neu'n adlewyrchu'n wael ar y rhaglen; neu
 - os bydd y wefan yn rhoi'r argraff ei bod yn wefan swyddogol S4C.
- 13.25 Lle bo'r cynhyrchydd yn creu ac yn cynnal ei wefan(nau) ei hun, ni fydd y cynhyrchydd yn dangos nac yn awdurdodi neu'n caniatáu i unrhyw drydydd parti ddangos unrhyw glip neu ddarn o'r Rhaglen neu unrhyw fersiwn ohoni ar unrhyw

Gyfyngau Newydd cyn darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C. Fodd bynnag, gall y cynhyrhydd ddefnyddio clip neu glipïau o Raglen S4C (na fydd unrhyw glip unigol dros 30 eiliad o hyd ac na ddylai'r clipiau mewn cyfanswm fod dros 10% o hyd gwirioneddol y rhaglen, neu bum munud fel uchafswm, pa un bynnag yw'r cyfanswm isaf) ar wefan(nau) y cynhyrhydd at ddibenion hyrwyddo'r rhaglen a Rhaglen S4C a darllediad(au) S4C o Raglen S4C cyn darllediad cyntaf S4C o Raglen S4C. Bydd unrhyw hyrwyddo o'r fath yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ysgrifenedig adran farchnata S4C.

- 13.26 Yn ogystal, bydd gan S4C yr hawl i ddefnyddio clipïau o Raglen S4C yn ystod Cyfnod y Drwydded ac (os yw hynny'n berthnasol) unrhyw Gyfnod Estynedig y Drwydded:
- 13.26.1 ar unrhyw wefan(nau) sy'n atodol i'r rhaglen ar gyfer Rhaglen S4C; a/neu
 - 13.26.2 unrhyw wefan(nau) corfforaethol a sefydlir gan S4C neu ei Chwmnïau Teulu o bryd i'w gilydd (yn hytrach na neu yn ychwanegol i unrhyw wefan ar wahân neu dudalennau ar y we a neilltuwyd ar gyfer y rhaglen); a/neu
 - 13.26.3 ar unrhyw wefan(nau) generig a sefydlir ac a ddangosir gan S4C o bryd i'w gilydd (h.y. lle bo S4C yn creu tudalennau o fewn ei wefan gorfforaethol i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gategori neu gategoriâu penodol o raglenni, e.e. Drama ar S4C neu Raglenni Chwaraeon ar S4C, yn hytrach nag neu yn ychwanegol i unrhyw wefan neu dudalennau ar y we sy'n cael eu neilltuo i'r rhaglen).

Opsiwn i Ymestyn Cyfnod y Drwydded

- 13.27 Gall S4C ymestyn Cyfnod y Drwydded am gyfnod pellach o dair blynedd (Rhaglenni Plant a Rhaglenni Addysgol) neu ddwy flynedd (pob rhaglen arall) drwy roi o leiaf chwe (6) mis calendr o rybudd i'r cynhyrhydd cyn i Gyfnod y Drwydded ddod i ben a thrwy dalu ffi ymestyn i'r cynhyrhydd yn unol â Thabl 2 o'r tablau ffioedd [\[hyperlink\]](#). Telir y ffi ymestyn i'r cynhyrhydd cyn pen 28 diwrnod o roi'r rhybudd i'r cynhyrhydd.

Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol

- 13.28 Bydd gan S4C yr hawl unigryw ac ecsgliwsif yn ystod Cyfnod y Drwydded ac, wedi hynny yr hawl an-ecsgliwsif, i gomisiynu rhaglenni Cymraeg wedi'u seilio ar y Fformat.
- 13.29 Os bydd S4C yn penderfynu comisiynu Rhaglen/Cyfres Ddilynol, bydd yn hysbysu'r cynhyrhydd, a bydd gan y cynhyrhydd saith (7) diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad i ddarparu mynegiant o ddiddordeb ysgrifenedig mewn cynhyrchu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol i S4C. Bydd cyfnod trafod o wyth diwrnod ar hugain (28) (a fydd yn cael ei gyfrif o'r dyddiad y derbyniodd S4C hysbysiad y

- cynhyrchydd) yn dilyn. Os na fydd S4C a'r cynhyrchydd wedi cytuno ar holl delerau'r comisiwn arfaethedig cyn pen y fath gyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28) neu os na fydd S4C yn derbyn hysbysiad gan y cynhyrchydd cyn pen y saith (7) diwrnod angenrheidiol, bydd S4C yn rhydd i ddyfarnu'r comisiwn i drydydd parti neu bartïon.
- 13.30 Ni fydd y cynhyrchydd yn ymarfer yr Hawliau Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn ystod Cyfnod y Drwydded neu Gyfnod Estynedig y Drwydded. Wedi i Gyfnod y Drwydded neu Gyfnod Estynedig y Drwydded ddod i ben, ni fydd yn gwneud hynny mewn unrhyw iaith heb hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny mewn digon o fanylder er mwyn galluogi S4C i benderfynu a yw'n dymuno bod yn gysylltiedig â Rhaglen/Cyfres Ddilynol o'r fath. Bydd y cynhyrchydd yn darparu'r cyfryw fanylion ychwanegol ag y gall S4C ofyn amdanynt yn hwyrrach.
- 13.31 Wedi derbyn hysbysiad dan Adran 13.30, bydd gan S4C gyfnod o bedwar ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith i hysbysu'r cynhyrchydd yn ysgrifenedig a oes ganddi ddi-ddordeb mewn cydariannu'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol neu greu fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Gymraeg wedi iddi gael ei chwblhau.
- 13.32 Os na fydd y cynhyrchydd wedi derbyn hysbysiad o fath wedi'r cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) Diwrnod Gwaith ddod i ben, bydd ganddo yr hawl (yn amodol ar Adranau 13.33 a 13.34) i symud ymlaen gyda'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol heb gyfranogiad S4C.
- 13.33 Lle bo S4C yn hysbysu'r cynhyrchydd nad yw'n dymuno cyfranogi yn y broses o ariannu neu greu fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol yn y Gymraeg (neu os bernir dan Adran 13.32 nad yw'n dymuno gwneud hynny), bydd gan y cynhyrchydd yr hawl i symud ymlaen gyda Rhaglen/Cyfres Ddilynol ond bydd yn gwneud ei orau i sicrhau cydnabyddiaeth ar gyfer S4C ar y cyfryw raglen/cyfres ddilynol sy'n cydnabod y ffaith bod S4C wedi ariannu'r rhaglen wreiddiol.
- 13.34 Os bydd S4C yn rhoi hysbysiad o'r fath i'r cynhyrchydd yn ystod y cyfryw gyfnod o bedwar ar ddeg (14) diwrnod, bydd cyfnod trafod ecsgliwsif o wyth diwrnod ar hugain (28) yn dilyn, lle y bydd y partiïon yn defnyddio'u hymdrechion gorau i gytuno ar delerau o ran ariannu, cynnwys golygyddol, y personél allweddol, yr ataliadau a'r holl ffactorau perthnasol eraill. Yn ystod y fath gyfnod, ni fydd y cynhyrchydd yn trafod Rhaglen/Cyfres Ddilynol gydag unrhyw drydydd partiïon yn y DU. Os na lwyddir i gytuno cyn pen y cyfnod o wyth diwrnod ar hugain (28), gall y cynhyrchydd negydu gyda thrydydd partiïon ond ni chaiff gwblhau unrhyw drefniadau ar gyfer fersiwn o'r Rhaglen/Cyfres Ddilynol a fwriedir ei darlledu yn Gymraeg neu gyda thrac sain Cymraeg heb roi'r cyfle i S4C ymrwymo i'r un telerau ag a gytunwyd arnynt gyda'r trydydd parti. Bydd y cynhyrchydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o'r cyfryw delerau a bydd gan S4C gyfnod o ddeg (10) Diwrnod Gwaith i gadarnhau yn ysgrifenedig a yw'n fodlon ymrwymo ar y fath delerau. Os bydd S4C yn cadarnhau ei fwriad i

ymrwymo ar y fath delerau, ni fydd y cynhyrchydd yn symud ymlaen gyda'r trydydd parti.

Hawliau Marsiandiaeth

- 13.35 Yr hawl an-ecsgliwsif i ymelwa ar yr Hawliau Marsiandiaeth yn ystod Cyfnod y Drwydded a Chyfnod Estynedig y Drwydded.
- 13.36 Nod S4C yw cynhyrchu a/neu gomisiynu a dosbarthu nwyddau a deunyddiau sy'n atodol i Raglen S4C a/neu sy'n ychwanegu at brofiad y gwylwyr o wyllo Rhaglen S4C, ond heb dorri ar draws cynlluniau masnachol pendant y cynhyrchydd. Cynhwysir manylion ar sut y rheolir hyn yn y Drwydded.

Yr Hawl i Ddefnyddio Clipiau Rhaglen mewn Rhaglenni Eraill ar gyfer S4C

- 13.37 Cyfeiriwch at y [Polisi Defnyddio Clipiau a Deunydd Craidd](#) am fanylion ynghylch y ffioedd a'r caniatâd sy'n angenrheidiol.

Hawliau Hyrwyddo

- 13.38 Bydd gan S4C yr hawliau hyrwyddo a nodir yn Adran 7 uchod.

Yr Hawl i Awdurdodi Defnydd Addysgol ac Archifol

- 13.39 Yr hawl i ganiatáu:
- 13.39.1 i lyfrgelloedd ar archifau dynodedig (yn unol â Deddf Hawlfraint Dylunio a Phatentau 1988 (fel y'i diwygiwyd)) i baratoi a chadw copïau o Raglen S4C;
 - 13.39.2 i amgueddfeydd, canolfannau treftadaeth, cymdeithasau hanesyddol a chyrrff elusennol neu gyrff 'anfasnachol' eraill i gael copïau o'r rhaglen ac i'w harddangos neu eu defnyddio at ddibenion addysgol neu archifol y sefydliadau hyn;
 - 13.39.3 i ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau addysgol eraill gael copïau o'r rhaglen a'u defnyddio at ddibenion addysgol ac anfasnachol y sefydliad (yn unig).

Hawliau Recordio oddi ar yr Awyr

- 13.40 Yr hawl i ganiatáu i Educational Recording Agency Limited drwyddedu sefydliadau addysgol i recordio'r rhaglen oddi ar yr awyr ac i'w defnyddio at ddibenion addysgol yn unol â'r cynllun(iau) trwyddedu a weithredir gan ERA o bryd i'w gilydd boed ar sail Adran 35 Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 (fel y'i diwygiwyd) neu fel arall.

Hawliau Ymylol

- 13.41 Yr holl hawliau atodol eraill sydd eu hangen ar S4C er mwyn cyflawni ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau statudol neu er mwyn hwyluso'r rheiny, gan gynnwys:
- 13.41.1 yr hawl i gadw copi darlledu'r rhaglen am byth at ddibenion rheoleiddio; a'r
 - 13.41.2 hawl i gadw copïau o Raglen S4C mewn ffurfiau technegol amrywiol er mwyn galluogi S4C i baratoi gwahanol fersiynau o Raglen S4C e.e. fersiwn wedi'i isdeitlo, fersiwn iaith arwyddion, fersiwn gyda sain-ddisgrifiad ac ati, er mwyn hwyluso gwaith S4C; a'r
 - 13.41.3 hawl unigryw ac ecsgliwsif i ganiatáu i sianelau a gwasanaethau trydydd parti yn y Deyrnas Unedig a thu allan y Deyrnas Unedig i gynnwys y rhaglen mewn gwasanaethau rhaglen cebl neu systemau dosbarthu meicro-don aml-bwynt neu unrhyw wasanaeth arall beth bynnag fo'r dull o'i gyfleu i neu o'i dderbyn gan y gwyliwr a lle bo'r fath wasanaeth(au) yn darlledu cynnwys gwasanaethau S4C yn gydamserol; a'r
 - 13.41.4 hawl unigryw ac ecsgliwsif i geisio nawdd ar gyfer unrhyw ymelwa ar y rhaglen gan S4C.

Arddangosiadau Theatrïg

- 13.42 Bydd gan S4C yr hawl an-ecsgliwsif i awdurdodi arddangosiadau theatrig o'r rhaglen. Bydd y cynhyrhydd ac S4C yn cadw mewn cysylltiad o ran unrhyw arddangosiadau theatrig arfaethedig. Bydd nifer o'r cyfryw arddangosiadau yn rhad ac am ddim neu mewn cydnabyddiaeth am ffi weinyddol fach a godir gan y trefnydd.

14. Hawliau Ymelwa a Dosbarthu

- 14.1 Bydd yr holl hawliau yn neu i unrhyw raglen sydd wedi ei chomisiynu dan God Ymarfer S4C (*hyperlink*) ac eithrio Hawliau S4C y mae'r cynhyrhydd wedi cytuno eu rhoi i S4C, yn eiddo i'r cynhyrhydd. Bydd gan y cynhyrhydd yr hawl unigryw ac ecsgliwsif i ymarfer neu i awdurdodi eraill i ymarfer yr hawliau hyn.
- 14.2 Cymru International yw is-ddosbarthwr rhai o'r rhaglenni ym mhortffolio S4C Rhyngwladol ac efallai y bydd ganddo ddiddordeb mewn sicrhau'r hawliau dosbarthu i raglenni newydd. Rhennir syniadau am raglenni a gyflwynir trwy'r Wefan Gynhyrchu gyda Cymru International oni bai bod y cynhyrhydd yn hysbysu S4C ar adeg cyflwyno syniad nad yw'n dymuno i hyn ddigwydd. Mewn perthynas â rhaglenni a gynhyrchir dan y Cod Ymarfer (*hyperlink*), mae'r dewis o ddsbarthwr, fodd bynnag, yn fater i'r cynhyrhydd yn llwyr.

15. Enillion Net ac Adrodd ar Ymelwa

15.1 Oni bai y cytunir fel arall gyda'r cynhyrchydd, bydd gan S4C yr hawl i gael cyfran o'r Enillion Net sy'n deillio o unrhyw ymelwa ar y rhaglen gan y cynhyrchydd neu ar ei ran, fel a ganlyn:

- | | | |
|--------|---|-----|
| 15.1.1 | Ile bo S4C yn ariannu rhaglen beilot boed hynny yn llawn neu'n rhannol (nad yw'n cael ei darlledu) fel rhan o'r gwaith datblygu | 20% |
| 15.1.2 | Ile nad yw S4C yn ariannu rhaglen beilot mewn unrhyw ffordd | 15% |

Rhennir yr Enillion Net a dderbynnir gan S4C o ymelwa ar yr Hawliau Cyfryngau Newydd (wedi didynnu ei chostau) yn gyfartal rhwng S4C a'r cynhyrchydd. Rhennir yr Enillion Net y mae S4C yn ei sicrhau o ymelwa ar yr Hawliau Marsiaidiaeth a'r Hawliau Theatrig yn ôl yr hyn a gytunwyd ym mhob achos unigol. Fel arall, bydd unrhyw incwm (os o gwbl) y bydd S4C yn ei ennill o ymarfer Hawliau S4C yn eiddo i S4C yn llwyr ac ni ddisgwylir i S4C roi cyfrif amdano.

15.2 Bydd y Drwydded yn nodi pa mor aml y bydd y cynhyrchydd neu'r dosbarthwr yn rhoi cyfrif i S4C am ei chyfran o'r Enillion Net a hawliau archwilio S4C o ran yr Enillion Net, ond bydd angen i S4C a'r cynhyrchydd gytuno ar adeg comisiynu'r rhaglen:

- 15.2.1 os oes modd ad-ennill unrhyw flaendaliadau neu gyfraniadau ariannol yn y safle cyntaf;
- 15.2.2 unrhyw drefniadau arbennig o ran unrhyw gyfryngau neu diriogaethau penodol;
- 15.2.3 ar y strwythur ad-ennill.

Pan na fydd y partïon yn gallu cytuno ar y trefniadau hyn, dylid datrys y mater yn unol ag Adran 18 isod.

15.3 Dylai adroddiadau gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn galluogi S4C i adrodd i'r Gymdeithas Hawliau Cyfarwyddwyr a Chynhyrchwyr ('DPRS') parthed ymelwa.

16. Gwyliau Ffilm a Theledu

16.1 Bydd gan S4C yr hawl an-ecsgliwsif i enwebu Rhaglen S4C ar gyfer gwobrau ffilm a theledu neu fel arall i gynnig y rhaglen neu Raglen S4C i'w harddangos neu ei beirniadu mewn unrhyw wyl ffilm neu deledu neu seremoni wobrwyo.

- 16.2 Lle bo S4C yn dymuno enwebu'r rhaglen neu Raglen S4C am unrhyw wobwr neu wyl, bydd S4C yn hysbysu'r cynhyrchydd ymlaen llaw gan gymryd ystyriaeth o sylwadau'r cynhyrchydd. Bydd unrhyw anghytundeb yn cael ei ddatrys yn unol ag Adran 18.

17. Cyd-gynhyrchiadau

- 17.1 Lle bo rhaglen yn cael ei chyd-gynhyrchu, ni ddylai gofynion unrhyw drydydd parti wrthdaro â gofynion S4C (yn enwedig o ran hawliau a rheolaeth olygyddol). Felly, bydd S4C yn dymuno cymeradwyo'r telerau a fydd yn sail i gyfraniad unrhyw drydydd parti i'r cynhyrchiad. Yn ogystal, bydd S4C yn dymuno sicrhau bod y telerau a gynigir i S4C yn gadael S4C mewn sefyllfa sydd o leiaf mor ffafriol â'r arianwyr eraill sy'n gwneud cyfraniad ariannol cymharol. Rhaid cytuno ar y strwythur cytundebol mwyaf priodol ymlaen llaw ym mhob achos unigol.
- 17.2 Rhaid i unrhyw gynhyrchydd sy'n defnyddio enw S4C i godi arian ar gyfer rhaglen sicrhau caniatâd S4C ymlaen llaw ar ffurf llythyr o fwriad cyn gwneud hynny.
- 17.3 Rhaid i fersiwn y rhaglen a gyflëir i S4C gydymffurfio â'r [Canllawiau Cydymffurfiaeth](#) ac yn enwedig gyda'r darpariaethau yn y [Canllawiau Nawdd](#) sy'n delio ag ariannu rhaglenni. Ni fydd safonau technegol a golygyddol darlledwyr neu arianwyr eraill o reidrwydd yn dderbyniol i S4C.

18. Datrys Anghydfodau

- 18.1 Gall adegau godi pan fydd barn S4C a barn y cynhyrchydd o ran rhyw agwedd ar gomisiynu, cytundebu, ariannu, cynhyrchu, darlledu ac ymelwa ar y rhaglen, yn wahanol. Ym mwyafrif yr achosion, bydd y partion yn gallu datrys y mater cyn iddo fynd yn anghydfod trwy ddod i benderfyniad sy'n rhesymol dderbyniol i'r ddau barti.
- 18.2 Os bydd anghydfod yn codi, dylai'r cynhyrchydd geisio datrys y mater gyda'r aelod(au) o staff S4C y bu'n trafod y comisiwn gyda nhw yn gyntaf. Gall y cynhyrchydd geisio cyngor gan gynghorwyr allanol (naill ai gan TAC neu unrhyw gymdeithas fasnachol debyg neu gan ei gynghorwyr proffesiynol) ond dylai unrhyw drafodaethau a chyfarfodydd a gynhelir ar y cymal hwn, gael eu cyfyngu i aelodau staff y partion.
- 18.3 Os na fydd y trafodaethau hyn yn datrys yr anghydfod, disgwylir i'r partion gyfeirio'r mater at swyddog uwch enwebedig S4C. Bydd gan y cynhyrchydd yr hawl i estyn gwahoddiad i'w gynghorwyr allanol fod yn rhan o unrhyw

drafodaethau ac i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfodydd y mae swyddog uwch S4C yn bresennol ynddynt.

- 18.4 Os bydd yr anghydfod yn parhau heb gael ei ddatrys, bydd gan y cynhyrchydd yr hawl (ar ôl rhoi cyfle rhesymol i Gyfarwyddwr Comisiynu S4C ddatrys y mater) i gyfeirio'r mater at Brif Weithredwr S4C er mwyn ei ddatrys. Gall y Prif Weithredwr ofyn i'r partïon roi crynodeb o'u safbwyntiau a'u dadleuon yn ysgrifenedig iddo/i cyn unrhyw gyfarfod gyda'r Prif Weithredwr a gall estyn gwahoddiad i'r partïon fynychu cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr (yn y fath ffurf ac yn cynnwys y fath gynrychiolwyr o'r ddau barti ag y bydd y Prif Weithredwr yn ystyried yn briodol yn ôl ei farn/barn resymol). Yn ogystal, gall y Prif Weithredwr ofyn am gyfarfod neu gyfarfodydd pellach gyda'r partïon cyn cyhoeddi ei benderfyniad/phenderfyniad. Ym mhob achos, bydd y Prif Weithredwr yn ceisio cyhoeddi ei benderfyniad/phenderfyniad cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol yn dilyn ei gyfarfod/chyfarfod olaf gyda'r partïon.
- 18.5 Os na fydd y cynhyrchydd yn fodlon â phenderfyniad Prif Weithredwr S4C, gall y cynhyrchydd apelio i Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C a bydd y rhan honno o'r Polisi Cwynion [*hyperlink*] sy'n ymwneud ag apeliadau i Awdurdod S4C, yn weithredol.

19. Polisi Dethol ac Archifo TAC

Bydd cynhyrchwyr yn cydymffurfio â [Pholisi Dethol ac Archifo TAC](#) neu'r fath bolisi dethol ac archifo arall ag y mae S4C yn cymeradwyo yn ysgrifenedig.

20. Ceisiadau am Gopiâu Preifat

Pan fydd aelodau'r cyhoedd yn cysylltu ag S4C i ofyn am gopi o'r rhaglen, bydd S4C yn eu cyfeirio at y cynhyrchydd, a fydd yn delio â phob cais o'r fath yn unol â'r Canllawiau Copïau Preifat (*hyperlink*).